

un o gyhoeddiadau  
CYF  
GOLWNG



Awst - Medi 2019 rhifyn 121

# lingo

newydd

£2

# Catrin Mara yn Pili Pala



Ymweld ag  
ardal yr  
Eisteddfod



Beth mae  
Francesca  
Sciarrillo  
yn hoffi?



**Helo, bawb!**

**Dych chi'n mynd ar wyliau dros yr haf?**



Dych chi'n mynd i Sir Conwy – lle mae'r Eisteddfod Genedlaethol? Os dych chi, mae gan bobl yr ardal lawer o syniadau da ar dudalen 10 ac 11:

- Mae Dylan Jones yn newyddiadurwr. Mae e'n dod o Gapel Garmon. Mae e'n dweud, "Ewch i Gapel Garmon!"
- Myrddin ap Dafydd ydy'r Archdderwydd. Mae e'n dod o Lanrwst yn wreiddiol. Mae e'n dilyn hanes Llywelyn Fawr drwy'r ardal.
- Mae'r canwr Al Lewis yn hoffi Llandudno ac mae e'n dweud, "Ewch ar y dramffordd i fyny'r Gogarth ac i'r pier."

Mae teulu Francesca Sciarrillo yn dod o'r Eidal. Mae hi'n byw yn yr Wyddgrug. Enillodd hi Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Ar dudalen 6, mae hi'n sôn am wyliau yn yr Eidal, darllen, gwrando ar fiwsig – a phasta!



Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Mae hi'n byw yn agos iawn at y môr yn ardal Ostia Lido, ger Rhufain. Mae hi'n canu gyda'i band ar y traeth! Ewch i dudalen 18 i ddarllen mwy.

Os dych chi'n mynd i aros yng Nghymru, beth am fynd draw i siop Cymru Confectionery yng Nghaerdydd? Maen nhw'n gwneud melysion fel cyffug a melysyn Twrci. Maen nhw'n defnyddio ryseitiau eu tad-cu. Mae'r hanes ar dudalen 12.



**Ble bynnag byddwch chi dros yr haf – mwynhewch!**

**Geiriau**

newyddiadurwr – <i>journalist</i>	Rhufain – <i>Rome</i>
archdderwydd – <i>archdruid</i>	melysion = <i>losin</i>
tramffordd – <i>tramway</i>	= <i>fferins</i> – <i>sweets</i>
y Gogarth – <i>the Great Orme</i>	cyffug – <i>fudge</i>
enillodd hi – <i>she won</i>	melysyn Twrci – <i>Turkish delight</i>
agos – <i>near</i>	ble bynnag – <i>wherever</i>

**Cynnwys**

**Awst – Medi 2019**

- 1 Cynnwys
- 2 Helo, bawb!
- 3 Eich tudalen chi
- 4 Darganfod Dinbych – Llythyr gan un o'n darllenwyr
- 5 Trysorau Cymru – Llechi Cymru
- 6 Dw i'n hoffi... – Hoff bethau Francesca Sciarrillo, enillydd Medal y Dysgwr yn Eisteddfod yr Urdd
- 8 Cyfoes – Cofio'r arwisgiad
- 10 Blwyddyn Darganfod Cymru – Hoff lefydd tri o ardal Sir Conwy
- 12 Bwyd – Cymru Confectionery
- 14 Byw Dramor – Cari Davies ym Mhatagonia
- 15 Lampau halen pinc o Fynyddoedd Himalaia
- 16 Ar y bocs – Drama newydd Pili Pala a sgwrs efo Catrin Mara
- 18 Debora Morgante a'i band ar y traeth yn yr Eidal
- 19 Croesair ac idiom Mumph



**Geiriau**

darganfod – (to) *discover*  
 trysor,-au – *treasure,-s*  
 llechen, llechi – *slate,-s*  
 arwisgiad – *investiture*  
 hoff lefydd – *favourite places*  
 ardal – *area*  
 dramor – *abroad*

**Lliwiau lingo newydd**

**Lliwiau lingo newydd** Mae cod lliw i'ch helpu chi i ddarllen lingo newydd.

- 1 Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.
- 2 Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.
- 3 Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG<sup>2</sup>  
**lingo newydd**, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan,  
 Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 ☎ 01570 423538  
 ✉ e-bost: [lingonewydd@golwg.com](mailto:lingonewydd@golwg.com)  
 Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Dyfan Williams,  
 Mumph, Bethan Wyn Jones, John Rees

Llun clawr: Catrin Mara

**EICH TUDALEN CHI**

**Newid hinsawdd – 'dim angen protestio'**

Annwyl lingo newydd, Dw i ddim yn cytuno gyda'r bobl sy'n protestio yn erbyn newid hinsawdd. Dw i'n credu eu bod nhw'n gor-ddweud pethau.

Mae'r hinsawdd wedi bod yn newid ers canrifoedd; dydy hyn ddim yn beth newydd. Mae pobl yn codi ofn arnon ni heb angen.

Roedd bywyd gwyllt a rhywogaethau eraill wedi dechrau diflannu dros gyfnod hir ac maen nhw'n parhau i wneud hynny. Mae hyn yn ddatblygiad naturiol. Tasai hyn ddim wedi digwydd basai'r Dodo a'r dinosoriaid yn dal gyda ni.

Mae Cymru yn dda iawn am ailgylchu ac mae hi'n un o'r gwledydd gorau yn y byd am wneud hyn.

Roeddwn i o blaid cael ffordd liniaru newydd i'r M4 achos mae'n bwysig i'r economi a bydd ceir trydan yn dod yn fwy poblogaidd yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario miloedd o bunnoedd dros y blynyddoedd diwetha ar adroddiadau i weld os oes angen adeiladu ffordd newydd. Mae un adroddiad yn dweud mai dim ond 2% o'r bywyd gwyllt fasi'n cael ei effeithio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwastraffu



llawer o arian dros nifer o flynyddoedd ar yr adroddiadau yma a nawr mae popeth wedi cael ei gollu.

Sandra Lewis, Sain Nicolas, Bro Morgannwg

**Beth dych chi'n feddwl? Dych chi'n cytuno gyda Sandra? Ysgrifennwch at lingo newydd!**

**Geiriau**

hinsawdd – *climate*  
 gor-ddweud – (to) *exaggerate*  
 rhywogaeth,-au – *species*  
 o blaid – *in favour of*  
 ffordd liniaru – *relief road*  
 adroddiad,-au – *report,-s*



EICH TUDALEN CHI

Annwyl lingo newydd

Aeth criw o aelodau o Glwb Cymraeg Preston ar drip i Ddinbych ddiwedd mis Mai er mwyn i'r dysgwyr gael cyfle i ymarfer eu Cymraeg. Roedd Nerys Ann Roberts, un o diwtoriaid Popeth Cymraeg, wedi trefnu diwrnod ardderchog i ni.

Yn dilyn ein profiadau, wnes i roi tasg i'r dysgwyr, "Beth oedd y peth gorau am Ddinbych?" Ces i ateb gwych gan Herma Holt. Mae Herma yn dod o India yn wreiddiol.

Dan ni'n hoff iawn o lingo newydd yng Nghlwb Cymraeg Preston. Cafodd Herma ei hysbrydoli gan eich erthyglau am y Flwyddyn Darganfod.

Dyma draethawd Herma.

Hwyl

Anne Spooner, Cadeirydd Clwb Cymraeg Preston

www.welshclubpreston.org

Geiriau

er mwyn – in order  
yn dilyn ... – following ...  
profiad,-au – experience,-s  
cafodd ... ei (h)ysbrydoli gan  
– ... was inspired by  
erthygl,-au – article,-s  
traethawd – essay

DINBYCH

Beth ydy'r peth gorau am Ddinbych? Gan Herma Holt

Mae Dinbych yn drysor, trysor cudd. Mi wnaethon ni ei ddarganfod o. Mi aethon ni gyda Ruth i'r castell. Mi wnaeth hi agor y giât efo goriad mawr. Mi wnaethon ni gerdded ar hyd y waliau. Mi wnes i weld coeden cnau Ffrengig am y tro cyntaf ger y wal. Roedd y golygfeydd yn brydferth. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.

Yn y bore, mi aethon ni i amgueddfa'r 1950au, 'Cae Dai', allan yn y wlad. Trip yn ôl mewn amser. Mi wnaethon ni gyfarfod â Nerys yma. Mi wnaeth hi baratoi cwis am yr amgueddfa. Hefyd, mi wnaeth hi roi diod boeth i ni a bara brith efo menyng chacenau cri. Roedd yr amgueddfa'n ddiddorol iawn. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.

Cawson ni ginio yn y Siop Siocled efo'n holl ffrindiau. Mi ges i frechdan Coronation Chicken a salad a chreision. Roedd y bwyd yn dda. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.



Mi aethon ni am dro yng nghanol y dref. Pwy wnaethon ni gyfarfod yn ymyl y llyfrgell? Mr H M Stanley wrth gwrs! Dyma'r peth gorau am Ddinbych.

Mi aethon ni i fy hoff siop, y siop lyfrau. Mi wnes i brynu llyfr stori i blant a'r cylchgrawn **Golwg**. Mi aethon ni i'r Swyddfa Bost nesa. Mi wnes i brynu cerdyn pen-blwydd Cymraeg i fy ffrind. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.

Roedden ni wedi blino erbyn 5.30 felly mi aethon ni i dafarn The Guild i ymlacio, i gael diod ac i gael pryd o fwyd. Roedd y bwyd yn dda iawn – fflagots Cymreig efo tatws stwnsh a phys. Roedd o'n fflus iawn. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.

Dw i ddim yn gwybod beth oedd y peth gorau. A dweud y gwir, roedd y diwrnod cyfan yn dda. Mi wnaethon ni ddysgu llawer ac mi gaethon ni hwyl.

Geiriau

trysor cudd – hidden  
treasure  
(a)goriad = allwedd  
– key  
cnau Ffrengig –  
walnuts  
cacennau cri = pice  
ar y maen  
– Welsh cakes  
holl – all  
cyfan – whole

Mae Cymru yn enwog am ei llechi. Mae John Rees yn arbenigwr ar hen bethau. Yma, mae e'n edrych ar hanes llechi Cymru ...

Cymru – lle'r llechi!

Trysorau Cymru

Mae llawer o drysorau Cymru yn bethau naturiol o dan y ddaear. Mae'r wlad yn enwog am ei glo, am aur a llechi. Mae llechi gorau'r byd yn dod o Gymru, meddai rhai.

Oes to llechi ar eich cartref chi? Os felly, mae'r llechi'n dod o Gymru, mae'n siŵr. Mae'r llechi'n para am amser hir.

Mae llechi Cymru dros 500 miliwn o flynyddoedd oed. Mae'r graig yn hen iawn.

Mae hanes hir o ddefnyddio llechi ar doeau yng Nghymru. Roedden nhw'n defnyddio llechi ar doeau yn ystod amser y Rhufeiniaid. To llechi oedd ar y gaer Rufeinig, Segontium, yng Nghaernarfon, mae'n debyg.

Mae'r rhan fwy o lechi Cymru yn dod o'r Gogledd. Mae rhai ardaloedd enwog, fel Blaenau Ffestiniog, Llanberis a Bethesda, ond mae rhai'n dod o fannau llai hefyd. Dach chi wedi bod i ardaloedd y llechi? Maen nhw'n brydferth a dramatig iawn. Mae'r dirwedd yn anhygoel!

Mae dwy ffordd o gael llechi o'r ddaear – cloddio a chwarela. Mae cloddio'n golygu mynd o dan y ddaear, fel mewn pwll glo. Mewn chwarel, mae'r tyllau'n agored.



Hanes y llechi

Y chwarel hyna ydy Chwarel y Cilgwyn, yn Nyffryn Nantlle. Mae hi'n mynd yn ôl i'r 12fed ganrif. Yn ystod y canrifoedd nesa, daeth llawer mwy o chwareli. Roedd y diwydiant yn ffynnu rhwng tua 1830 a 1880.

Roedd y diwydiant llechi'n ddiwydiant mawr iawn, yn cynhyrchu dros 450 miliwn tunnell y flwyddyn. Roedd datblygiad peiriannau, llongau a threnau yn helpu i gario'r llechi i'r porthladdoedd ac i bob rhan o'r byd.

Arafodd y diwydiant ar ôl tua 1900. Roedd defnyddiau mwy modern ar gael. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd llai o ddynion yn gweithio yn y chwareli. Mae rhai chwareli ar agor o hyd yng Nghymru.

Geiriau

ffynnu – (to) prosper  
tunnell – ton

Geiriau

llechen, llechi – slate,-s  
meddai rhai – according  
to some  
to, toeau – roof,-s  
craig – rock  
caer – fort  
y rhan fwy – most  
man,-nau – place,-s;  
spot,-s  
tirwedd – landscape  
cloddio – (to) mine,  
excavate  
chwarela  
– (to) quarry

Defnyddio llechi

Fel arfer mae llechi'n cael eu defnyddio ar gyfer toeau, ond maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer pethau eraill hefyd – cerrig beddi, er enghraifft, teils llawr a hyd yn oed celfi. Yng Nghastell Penrhyn, ger Bangor, mae gwely llechen. Cafodd o ei wneud i'r Frenhines Victoria ond doedd hi ddim yn ei hoffi fo!

Yn ystod y blynyddoedd diwetha, mae llawer mwy o bethau i'r tŷ yn cael eu gwneud o lechi – fframiau, matiau bwrdd, lampau ac ati.

Geiriau

carreg bedd, cerrig beddi – gravestone,-s  
hyd yn oed – even

Llechi a ni

Llechi ydy un o drysorau naturiol Cymru. Mae llechi Cymreig dros 500 miliwn oed.

Roedd pobl yn defnyddio llechi ar doeau tai yng Nghymru yn amser y Rhufeiniaid. Mae'r rhan fwy o lechi Cymru yn dod o'r Gogledd, o ardaloedd enwog fel Blaenau Ffestiniog, Llanberis a Bethesda.

Roedd y diwydiant llechi'n bwysig iawn yng Nghymru rhwng 1830 a 1880. Heddiw, mae'n bosib cael teils llawr o lechi, matiau bwrdd o lechi, celfi o lechi, pethau i'r tŷ o lechi – a llawer mwy!

Oes pethau o lechi yn eich cartref chi?

Geiriau

llechen, llechi – slate,-s  
trysor,-au – treasure,-s  
to, toeau – roof,-s  
y Rhufeiniaid – the Romans  
rhan fwy – most  
diwydiant – industry  
pwsig – important  
celfi – furniture



Mae lingo newydd yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Francesca Elena Sciarrillo yn ateb ein cwestiynau ni. Enillodd hi Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd 2019...

# Francesca Elena Sciarrillo Dw i'n hoffi...

**Francesca,  
beth ydy...?**

**...dy hoff ffordd o ymlacio?**

Dw i'n hoffi darllen neu wrando ar gerddoriaeth. Dw i wrth fy modd yn gwrandao ar gerddoriaeth a dw i'n mynd i ffeiriau recordiau yn aml.

Dw i'n mwynhau mynd i gyngherddau. Yn 2018, ro'n i'n lwcus iawn i weld fy hoff gantores, Patti Smith, yn ogystal â Gwenno, Geraint Jarman a Meic Stevens. Dw i'n mynd i weld Bob Dylan a Neil

Young hefyd – dw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn.

Dw i'n hoffi treulio amser efo'r teulu a ffrindiau hefyd. Dan ni'n deulu Eidalaidd a dan ni'n treulio lot o amser o gwmpas y bwrdd bwyd. Mae'n hyfryd achos dw i'n gwneud yr un peth efo teulu fy nghariad o Gaernarfon. Dw i'n gallu gweld y tebygrwydd rhwng y ddau ddiwylliant.



**...dy hoff fwyd?**

Fy hoff fwyd ydy pasta (wrth gwrs!), yn enwedig pasta Mam. Mamau'r Eidal ydy'r cogyddion gorau yn y byd!

**...dy hoff emwaith?**

Fy hoff ddarn o emwaith ydy modrwy Clogau gan fy nghariad, Harri.



**...dy hoff siop?**

Fy hoff siop ydy Mudshark Records, ym Mangor. Dw i wrth fy modd yn siop llyfrau Palas Print yng Nghaernarfon hefyd, a Siop y Siswrn, yn yr Wyddgrug.

**Geiriau**

cyngerdd, cyngherddau – concert, -s  
yn ogystal â – as well as  
yr un peth – the same

tebygrwydd – similarity  
yn enwedig – especially  
gemwaith – jewellery  
modrwy – ring





**...dy hoff ffilm?**

Heb os nac oni bai, fy hoff ffilm ydy *Moulin Rouge* gan Baz Luhrman. Mae'r ffilm yn llawn emosiwn. Mae'n gwneud i mi grio bob tro!

Mi wnes i weld ffilm o'r enw *Midnight in Paris* gan Woody Allen yn ddiweddar. Mi wnes i fwynhau'r ffilm yn fawr iawn achos mae'n edrych ar fywydau awduron ac ro'n i wedi astudio'r awduron yma yn y brifysgol.

**...dy hoff lyfr?**

Mae dewis dim ond un llyfr yn rhy anodd! *Jane Eyre* gan Charlotte Brontë neu *Alias Grace* gan Margaret Atwood, dw i'n meddwl. Pan o'n



**Geiriau**

awdur, -on – author, -s  
traethawd hir – dissertation  
barddoniaeth – poetry  
bardd, beirdd – poet, -s  
ar hyn o bryd – at present  
atgof, -ion – memory, memories  
gwenu o glust i glust –  
(to) smile from ear to ear



**...dy hoff wyliau?**

Fel teulu, dan ni'n trio mynd i'r Eidal bob blwyddyn efo'n gilydd i weld teulu ac aros yn hen dŷ Nain a Taid ac, wrth gwrs, bwyta lot o basta ac yfed lot o win!

Yn anffodus, mae'n anodd mynd fel teulu ar hyn o bryd oherwydd mae ein bywydau ni mor brysur.

Mae gen i lot o atgofion hyfryd efo fy nheulu yn yr Eidal. Unwaith, mi es i efo fy ffrind gorau, Kate, a'i theulu, i Tuscany – gwyliau bythgofiadwy i mi! Aethon ni i weld Opera Puccini yn Lucca un noson ac i farchogaeth y noson wedyn. Drwy'r wythnos roedden ni'n mynd i lefydd newydd – roedden ni'n ymlacio, yn chwerrthin ac yn creu atgofion hyfryd iawn.

Pan dw i'n meddwl am y gwyliau yma, dw i'n gwenu o glust i glust!



**Dyma Francesca**

Mae Francesca Sciarrillo yn 23 oed.

Mae hi'n dod o'r Wyddgrug ond mae ei theulu hi'n dod o'r Eidal yn wreiddiol.

Mae hi wedi astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Bangor.

Hi oedd enillydd Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni.

Ei swydd ydy Prentis mewn Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus i Aura Wales.

Roedd hi'n 16 oed yn dechrau dysgu Cymraeg. Mae hi'n caru'r iaith Gymraeg.

**Geiriau**

astudio – (to) study  
llynyddiaeth – literature  
prifysgol – university  
enillydd – winner  
marchnata – marketing  
cysylltiadau cyhoeddus – public relations



**...dy hoff olygfa?**

Y traeth yn Rhosneigr ar Ynys Môn neu draeth "Sant Agostino" yn Civitavecchia yn yr Eidal. Dw i ddim yn gallu dewis rhwng y ddau – mae'r ddau'n brydferth iawn.

Traeth Rhosneigr

Yn ôl yn 1969, roedd llawer o brotestio yng Nghymru achos arwisgiad y Tywysog Charles yn Dywysog Cymru. Roedd e yn ôl yng Nghymru ym mis Gorffennaf, ond sut ymateb gafodd e eleni?

# Cofio'r arwisgiad

**M**ae hi'n 50 mlynedd ers yr arwisgiad yng Nghaernarfon. Ar Orffennaf y cyntaf 1969, cafodd y Tywysog Charles ei wneud yn Dywysog Cymru. Dych chi'n cofio'r arwisgiad? Oeddech chi yng Nghaernarfon ar y pryd – neu'n gwyllo ar y teledu? Roedd cannoedd o bobl yn gwyllo'r arwisgiad yn y castell yng Nghaernarfon. Cafodd y seremoni ei gwyllo gan 500 miliwn o bobl ar draws y byd. Mae miloedd o dwristiaid wedi dod i'r dref ers hynny. Ym mis Gorffennaf, daeth y Tywysog Charles a'i wraig, Camilla, i Gymru i gofio pen-blwydd yr arwisgiad. Aethon nhw ar daith o gwmpas Cymru – ond aethon nhw ddim i Gaernarfon.

**Geiriau**

arwisgiad – *investiture*  
ymateb – *response*  
gafodd e – *did he have*  
ers hynny – *since then*

**Protestio**

Roedd 1969 yn flwyddyn o brotest yng Nghymru ac roedd mwy o bobl yn dechrau cefnogi Plaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith. Doedd llawer o bobl ddim yn hapus bod mab Brenhines Lloegr yn cael ei goroni yn Dywysog Cymru. Roedd llawer o brotestio. Cafodd bomiau eu gadael mewn rhai adeiladau cyhoeddus ar draws Cymru cyn yr arwisgiad. Y grŵp Mudiad Amddiffyn Cymru (MAC) oedd wedi rhoi'r bomiau yn y llefydd yma. John Jenkins oedd arweinydd MAC. Cafodd e ei arestio yn 1969. Yn 1970 cafodd e ei garcharu am 10 mlynedd am ei ran yn y bomio.

**Geiriau**

coroni – *(to) crown*  
gadael – *(to) leave*  
mudiad – *movement*  
amddiffyn – *(to) defend*

**Dafydd Iwan**

Mae Dafydd Iwan yn ganwr ac yn ymgyrchydd gwleidyddol. Mae e'n byw yng Nghaernarfon. Roedd e'n gadeirydd Cymdeithas yr Iaith adeg yr arwisgo yn 1969. Roedd e'n 25 oed ar y pryd. Ysgrifennodd e ganeuon protest, fel 'Carlo' a 'Croeso Chwedeg-Nain'. Mae e'n dweud bod yr arwisgo wedi gwneud i lawer o bobl ifanc yng Nghymru "ddeffro". Gwnaeth hyn iddyn nhw feddwl mwy am berthynas Cymru gyda Phrydain a Lloegr. Penderfynodd llawer o bobl ifanc, "Dyn ni ddim eisiau derbyn yr hen drefn. Dyn ni eisiau newid."

Ond mae e'n dweud bod llawer o gasineb ar y pryd. Cafodd pethau drwg eu dweud amdano fe ac roedd rhai pobl yn bygwth ei fywyd, meddai. Cwrddodd Dafydd Iwan â Thywysog Charles pan ddaeth e i Gymru ym mis Gorffennaf eleni. Mae Dafydd Iwan yn dweud ei fod e'n "falch" ei fod e wedi cwrdd â'r Tywysog. Dydy e ddim wedi newid ei feddwl am y teulu brenhinol, meddai. Mae e'n dal yn weriniaethwr ond mae e'n teimlo "parch" tuag ato fe. "Mae'n bwysig ein bod ni'n gallu byw gyda'n gilydd," meddai Dafydd Iwan.

**Geiriau**

ymgyrchydd gwleidyddol – *political campaigner*  
casineb – *hatred*  
bygwth – *(to) threaten*  
gweriniaethwr – *republican*  
parch – *respect*  
trefn – *order*



Castell Caernarfon



Llun: S4C

## Caernarfon

Er bod y Tywysog Charles wedi cael ei arwisgo yng Nghastell Caernarfon, ddaeth e ddim i'r dref y tro yma. Aeth e i Gaerdydd, Llanymddyfri, yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne ac Aberhonddu. Aeth e i Drawsfynydd a Dolgellau yn y gogledd. Roedd Maer Caernarfon, Tudor Owen, yn "siomedig" bod y Tywysog Charles ddim wedi dod i'r dref. Roedd Tudor Owen yn y

dref ar ddiwrnod yr arwisgiad yn 1969. Mae e'n cofio Caernarfon yn llawn pobl. Mae e'n dweud bod llawer o bobl wedi dod i Gaernarfon ers yr arwisgiad. Mae e'n dweud bod economi'r dref wedi gwneud yn dda dros y blynyddoedd. "Mae pobl yn dod i Gaernarfon jest i weld y castell lle roedd yr arwisgiad," meddai. Mae e'n meddwl basai'n "dda i'r economi" tasai arwisgiad arall yng Nghaernarfon. Dych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

## "Ofnadwy"

Dydy pawb ddim yn hapus bod y Tywysog Charles wedi dod i Gymru eto i gofio'r arwisgiad. Aeth e i'r Ysgwrn, hen gartref Hedd Wyn, ger Trawsfynydd. Roedd Ellis Humphrey Evans, neu Hedd Wyn, yn fardd a milwr. Enillodd e gadair Eisteddfod Genedlaethol 1917 ond bu farw cyn cael y wobr. Bu farw yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae e'n ymgyrchydd iaith. Mae e'n meddwl bod ymweliad y Tywysog â'r Ysgwrn yn "ofnadwy". "Mae e'n un o'r bobl sy'n rhan o'r system wnaeth yrru'r dynion ifanc i'r ffosydd... Dw i ddim yn credu ei fod e'n poeni am yr iaith Gymraeg a'r Cymry." Dych chi'n meddwl bod y Tywysog Charles yn poeni am yr iaith a phobl Cymru?

**Geiriau**

ymgyrchydd – *campaigner*  
ffos,-ydd – *trench,-es*

## Yr arwisgiad

Ar Orffennaf 1af, 1969 roedd arwisgiad y Tywysog Charles yn Dywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon. Roedd llawer o bobl yn anhapus gyda'r arwisgiad. Roedd llawer o bobl yn protestio. Un o'r protestwyr oedd y canwr Dafydd Iwan. Roedd e'n canu caneuon protest fel "Carlo". Daeth y Tywysog Charles yn ôl i Gymru i gofio 50 mlynedd ers yr arwisgiad. Aeth e i Gaerdydd, Llanymddyfri, yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne ac Aberhonddu. Aeth e i Drawsfynydd a Dolgellau yn y gogledd – ond aeth e ddim i Gaernarfon.

**Geiriau**

arwisgiad – *investiture*  
ers – *since*  
aeth e – *he went*  
Aberhonddu – *Brecon*

Blwyddyn Darganfod ydy 2019 yng Nghymru. Eleni, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst, yn Sir Conwy. Dach chi isio darganfod mwy am yr ardal? Dyma syniadau gan bobl enwog ...

# Darganfod Sir Conwy

Llun: Twitter @DylanAryMarc



## Tips y Llywydd

Mae Dylan Jones yn newyddiadurwr. Fo ydy Llywydd yr ŵyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Dw i'n dod o bentre Capel Garmon, felly dw i'n dweud, "Dewch i'r pentre."  
Mae Capel Garmon yn y brynau, tua dwy filltir o Fetws y Coed – a llai na hynny o'r nefoedd! ["Capel Gaps" ydy'r enw ar y pentre yn lleol.]

O'r pentre, dach chi'n cael golygfeydd bendigedig o fynyddoedd Eryri ... o Foel Siabod ar un ochr i Garnedd Dafydd yr ochr arall ...

Os dach chi isio cael yr olygfa orau o Ddyffryn Conwy, ewch am dro i ben Mynydd Garthmyn. Dach chi'n gweld pentre Betws y Coed, ac i'r gogledd, tre Llanrwst ar waelod y dyffryn.

Hefyd, mae Fforest Gwydir, gyda'r mynyddoedd ar wahanol lefelau.

Rhaid i chi ymweld â'r gromlech yng Nghapel Garmon, ein fersiwn ni o Gôr y Cewri! Mae hon yn dyddio'n ôl i'r trydydd mileniwm cyn Crist.

Mae'r gromlech ar dir fferm Tyn y Coed, ger y pentre. Mae lle i barcio ar ochr y ffordd




a dach chi'n gallu cerdded yn hawdd at y gromlech a mwynhau mynd yn ôl mewn hanes yng nghwmni'r defaid. Dyma un o'r enghreifftiau gorau o gromlech Neolithig, medden nhw.

Er bod Capel Garmon yn agos at y nefoedd mae o'n agos iawn at nifer o lefydd eraill hefyd. Dach chi ddim yn bell o atyniadau hanesyddol Dyffryn Conwy:

- Tŷ Mawr, Wybrnant, cartref William Morgan, y dyn wnaeth gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg
- Castell Dolwyddelan, hen gastell y Cymry
- Castell Gwydir, plasty pwysig
- Castell Conwy, castell Edward I – ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n mynd i "Gapel Gaps" yn gynta!



Moel Siabod



Castell Gwydir



Castell Conwy

## Geiriau

darganfod – *discovery, (to) discover*  
Llywydd yr ŵyl – *Eisteddfod Honorary President*  
newyddiadurwr – *journalist*  
y nefoedd – *heaven*  
golygfa, golygfeydd – *view,-s*  
Eryri – *Snowdonia*  
dyffryn – *vale, valley*  
Côr y Cewri – *Stonehenge*  
atyniad,-au – *attraction,-s*  
medden nhw – *so they say*

## Tips yr Archdderwydd

Mae Myrddin ap Dafydd yn fardd, awdur a chyhoeddwr o Lanrwst. Fo ydy Archdderwydd newydd yr Eisteddfod.

Beth am ddilyn trywydd Llywelyn Fawr, un o'r tywysogion lwyddodd i uno Cymru gyfan? Dyffryn Conwy ydy'r ardal sy'n dod â chi agosa ato fo.

Cafodd o ei eni yng Nghastell Dolwyddelan [tua 8 milltir o faes yr Eisteddfod]. Roedd o'n fab i lorwerth Drwyndwn – lorwerth y Trwyn Fflat.


Dan ni ddim yn gwybod pam roedd ganddo fo drwyn fflat – nam corfforol ar ei wyneb, efallai, neu efallai ei fod o wedi cael ei anafu mewn brwydr. Ond, oherwydd hyn, doedd o ddim yn gallu bod yn dywysog. Yn y dyddiau hynny, roedd rhaid i arweinydd fod heb farc.

Bu farw lorwerth pan oedd Llywelyn yn ifanc iawn. Cafodd o ei gladdu yn eglwys Penmachno [6 milltir o'r maes].

Ffodd y fam efo'r teulu ifanc i ddwyrain Powys – roedd hi'n ofni brodyr lorwerth Drwyndwn ond daeth Llywelyn yn ôl i'r ardal pan oedd o'n 14 oed.

Enillodd o frwydr bwysig yn erbyn un ewythr yng Nghonwy (lle diddorol arall!).

Roedd Llywelyn wedi ychwanegu at hen gastell Deganwy (lle mae 'na olygfa wych o'r aber!) ac roedd ganddo lys hela ym mhentre Trefriw [tua 4 milltir o'r Eisteddfod].



Uwchben Trefriw, mae hen eglwys Llanrhychwyn. Un enw ar yr eglwys ydy 'hen eglwys Llywelyn' achos bod Llywelyn a'i wraig, Siwan yn cerdded i'r eglwys i addoli pan oedden nhw yn y llys yn Nhrefriw. Mae nawws yr Oesoedd Canol i eglwys Llanrhychwyn.

Yn y diwedd, aeth Llywelyn i Abaty Aberconwy a bu farw yno. Mae castell Edward I rŵan lle roedd yr abaty ond dach chi'n gallu gweld tair ffenest o ystafell Llywelyn yn yr Abaty. Maen nhw ym muriau tref Conwy o hyd.

Erbyn hyn, mae arch garreg Llywelyn yng nghapel Gwydir, Eglwys Grwst Sant, Llanrwst, tref yr Eisteddfod!. Mae'n werth mynd yno i gael golwg arni hi.

## Geiriau

dilyn trywydd ... – (to) follow the trail of ...	court
nam corfforol – physical defect	addoli – (to) worship
ffoi – (to) flee	naws – atmosphere
llys hela – hunting	abaty – abbey
	arch – coffin
	cael golwg ar – (to) have a look at

## Tips y cerddor

Mae Al Lewis yn ganwr a cherddor. Fo, Cefin Roberts a Karen Owen sy'n gyfrifol am sioe gerdd fawr yr Eisteddfod eleni.

Es i i Ysgol y Creuddyn, ym Mae Penrhyn, ger Llandudno. Mae diwrnod yn Llandudno yn lle da i ddechrau os dach chi'n ymwelydd newydd.

Roedd y dref yn boblogaidd iawn yn ystod Oes Fictoria fel lle gwyliau. Dach chi'n gweld yr hanes yn yr adeiladau a'r gwastai crand wrth lan y môr. Mae'n rhaid mynd i'r pier hefyd!


Dw i'n eich annog chi i fynd i fyny'r Gogarth ar y dramffordd achos mae 'na olygfeydd hyfryd o Ben y Gogarth. Mae 'na bysgod a sglodion da yma hefyd!

Ger Llandudno, mae tref Conwy yn werth ei gweld! Mae 'na ddigonedd o lefydd hanesyddol yn y dref. Dach chi'n gallu cerdded ar hyd waliau'r dref – a chofiwch ymweld â'r castell!

Rai milltiroedd tu allan i Landudno, mae Gerddi Bodnant. Maen nhw'n fyd-enwog. Maen nhw'n gartref i blanhigion o bob math. Perffaith am ddiwrnod o ymlacio!

## Geiriau

yn gyfrifol am – *responsible for*  
ymwelydd – *visitor*  
annog – (to) encourage  
y Gogarth – *the Great Orme*  
tramffordd – *tramway*  
Pen y Gogarth – *Great Orme's Head*  
byd-enwog – *world-famous*



## Lle mae Dylan Jones, Myrddin ap Dafydd ac Al Lewis yn hoffi mynd?



### Dylan

Mae Dylan yn dod o Gapel Garmon, ger Betws y Coed.

Felly mae o'n dweud, "Ewch i Gapel Garmon."

Pam?

I weld mynyddoedd Eryri – ac i weld cromlech, lle claddu o'r Oes Neolithig.

### Myrddin ap Dafydd

Mae Myrddin ap Dafydd yn dod o Lanrwst yn wreiddiol. Mae gan Myrddin fusnes yn y dref o hyd – Gwasg Carreg Gwalch, sy'n cyhoeddi llyfrau.

Mae o'n dweud, "Beth am ddilyn hanes Llywelyn Fawr, brenin Cymru?"

Mae cysylltiadau Llywelyn mewn sawl lle yn ardal yr Eisteddfod – Dolwyddelan, Trefriw, Eglwys Llanrhychwyn, Conwy a Deganwy.

### Al Lewis

Canwr a cherddor ydy Al Lewis.

Roedd o'n mynd i ysgol yn yr ardal.

Mae Al Lewis yn hoffi Llandudno. Mae o'n hoffi'r adeiladau a'r gwastai Fictoriaidd.

Mae o'n dweud, "Ewch i fyny'r Gogarth ar y dramffordd ac i'r pier."

Mae o'n hoffi tref Conwy hefyd.



## Geiriau

Eryri – *Snowdonia*  
lle claddu – *burial place*  
oes – *age*  
mae gan ... = mae ... 'da = ... has got ...  
sy'n cyhoeddi – *that publishes*  
cysylltiad, cysylltiadau – *link,-s*  
canwr – *singer*  
cerddor – *musician*  
y Gogarth – *the Great Orme*  
tramffordd – *tramway*

Mae Jeff Barry a'i deulu wedi dechrau busnes gwneud melysion.  
Maen nhw'n defnyddio hen ryseitiau ei dad-cu ...

# Pethau melys!



## Dechrau busnes

Mae Jeff Barry yn mwynhau coginio ond doedd e ddim yn gogydd proffesiynol. Doedd e ddim yn ddyn busnes chwaith. Ond penderfynodd e fynd amdani, meddai.

“Ro'n i wedi edrych i mewn i'r peth ers tua dwy flynedd ac wedi trio gwahanol ryseitiau. Yna, wnes i benderfynu: mae e'n mynd i weithio neu dydy e ddim.”

“Roedd hyn yn dipyn o gambl. Roedd fy rhieni i ar wyliau. Daethon nhw'n ôl ac ro'n i wedi prynu'r offer i gyd ac wedi bwcio i fynd i lawer o farchnadoedd a ffeiriau bwyd!”

Mae'r teulu yn ei gefnogi fe ac maen nhw'n helpu gyda'r busnes.

“Roedd fy mam, Yvonne, newydd ymddeol ond mae hi wrth ei bodd yn helpu i wneud y melysion. Fi sy'n gwneud y melysion gyda siocled a hi sy'n gwneud y cyffug. Mae'r rysait yn

gyfrinach deuluol. Mae Dad, fy anti, sy'n 67 oed, a fy wncl, yn helpu yn y siop hefyd.”

Erbyn hyn, mae llawer o siopau a gwstai yn gofyn i Cymru Confectionery am eu melysion. Mae eu siop yn Stryd Womanby yng Nghaerdydd yn gwerthu'r melysion i ymwelwyr o bob rhan o'r byd, gan gynnwys pobl o Ganada, Brasil a Singapore.

Beth ydy ffefrynau'r cwsmeriaid? “Mae'r cyffug rym a rhesins yn boblogaidd iawn. Dyn ni'n mwyno'r rhesins mewn rym am dri diwrnod – a dydyn ni ddim yn defnyddio unrhyw beth artiffisial. Heb os nac oni bai, y ffefryn ydy'r melys yn Twrci.”

Mae'r teulu'n gwneud y melysion â llaw yn eu cartref ac maen nhw'n chwilio am uned fwy. Maen nhw isie gwerthu eu melysion mewn mwy o siopau bach annibynnol a gwstai.

“Does dim digon o le yn y tŷ erbyn hyn,” meddai Jeff Barry. “Mae rhywbeth ym mhob ystafell bron ac mae'n dechrau cymryd drosodd.”

Beth fasai ei dad-cu yn meddwl o'r busnes?

“Dw i wedi clywed ei fod e'n ffysi iawn am y ffordd roedd pethau'n cael eu gwneud ond hoffwn i feddwl basai e'n falch iawn.”

## Geiriau

- offer – equipment
- newydd ymddeol – just retired
- cyfrinach – secret
- erbyn hyn – by now
- gan gynnwys – including
- mwyno – (to) soak
- heb os nac oni bai – without a shadow of a doubt
- annibynnol – independent
- bron – almost
- balch – proud



James Issac Price



## Rysait gan Cymru Confectionery

### Cyffug Melys gybolfa

#### Cynhwysion

- 400g o siocled gwyn
- 1 tun o laeth tew
- 50g o fefus wedi'u sychrewi
- 3-4 meringue mawr wedi'u torri

#### Dull

1. Toddwch y siocled gwyn dros *bain marie* – powlen wydr maint canolig dros sosban fach. Gwnewch yn siŵr bod y dŵr ddim yn cyrraedd gwaelod y bowlen neu gallai'r siocled losgi.
2. Pan fydd y siocled wedi toddi, tynnwch y bowlen oddi ar y gwres a chymysgwch y llaeth tew i mewn i'r siocled yn y bowlen nes ei fod e'n dechrau mynd yn drwchus.
3. Cymysgwch y mefus wedi'u sychrewi i'r gymysgedd.

#### Geiriau

- cyffug – fudge
- melys gybolfa – Eton mess
- llaeth tew – condensed milk
- wedi'u sychrewi – freeze-dried
- toddi – (to) melt
- trwchus – thick
- papur pobi – baking parchment
- gwasgu – (to) press

**D**ych chi'n hoffi pethau melys? Dych chi'n hoffi melysion fel cyffug, melys yn Twrci, malws melys a siocled?

Mae'r cwmni Cymru Confectionery yn gwneud pob math o felysion ac maen nhw wedi agor siop yng Nghaerdydd.

Jeff Barry a'i deulu sy'n gwneud y melysion yn eu cartref.

Roedd ei dad-cu, James Price, yn gogydd gyda'r RAF ac roedd e'n teithio dros y byd. Yn ystod ei deithiau, roedd e'n casglu llawer o ryseitiau.

Nawr, mae ei ryseitiau'n cael eu defnyddio gan ei deulu yn eu busnes melysion.

Roedd Jeff Barry, sy'n 21 oed, yn gweithio i gwmni Technoleg Gwybodaeth (IT) ond roedd e isie gwneud rhywbeth gwahanol.

Dros y blynyddoedd, roedd e wedi clywed llawer o straeon am ei dad-cu a'i lyfr ryseitiau. Aeth e i'r atig i chwilio a ffeindiodd e'r llyfr.

“Roedd Tad-cu yn gogydd mewn gwstai yng Nghaerdydd cyn ymuno â'r RAF adeg yr Ail Ryfel Byd,” meddai Jeff Barry.

“Yn anffodus, roedd e wedi marw pan o'n i'n blentyn ifanc ond dw i'n cofio clywed y straeon amdano fe.

“Pan oedd e'n mynd i lefydd fel Burma, India a Cyprus, roedd e'n siarad gyda'r bobl leol ac yn gofyn am ryseitiau ar gyfer pethau fel melys yn Twrci. Roedd e'n mynd â'i lyfr ryseitiau bach gyda fe i bobman.

“Roedd e'n arfer gwneud lot o felysion tua mis Hydref a'u cuddio nhw mewn tuniau a dod â nhw mas adeg y Nadolig.

Faint o waith oedd hi i fynd drwy lyfr ei Dad-cu i gael y ryseitiau?

“Doedd ei lawysgrifen e ddim yn daclus iawn. Roedd e wedi ysgrifennu pob math o bethau yn y llyfr ac wedi croesi rhai pethau mas, neu wedi newid y ryseitiau.

“Cymerodd hi dipyn o amser i weithio mas beth oedd ystyr pethau fel 'un siwgr' a gwnaethon ni lot o gamgymeriadau ar hyd y ffordd.

“Dyn ni wedi addasu'r ryseitiau nawr ac maen nhw'n gweithio'n dda. Hefyd, dyn ni wedi stopio defnyddio gelatin yn y melys yn Twrci fel bod pobl sy'n figan yn gallu ei fwyta fe.”

## Geiriau

- melysion = losin = adeg yr Ail Ryfel Byd
- fferins – sweets – at the time of the Second World War
- tad-cu = taid – grandfather
- cyffug – fudge
- melys yn Twrci – Turkish delight
- malws melys – marshmallows
- mas = allan – out
- llawysgrifen – handwriting
- addasu – (to) adapt
- fel bod – so that

## Dyma Cymru Confectionery

Mae Cymru Confectionery yn gwneud pob math o felysion ac maen nhw'n gwerthu'r melysion yn eu siop yng Nghaerdydd.

Mae Jeff Barry a'i deulu'n gwneud y melysion yn eu cartref.

Roedd ei dad-cu, James Price, yn gogydd gyda'r RAF.

Roedd e'n teithio dros y byd.

Roedd e'n casglu llawer o ryseitiau. Mae'r teulu'n defnyddio'r ryseitiau i wneud y melysion.

Mae rhai o'r ryseitiau'n gyfrinach!

## Geiriau

- melysion = losin = fferins – sweets
- tad-cu = taid – grandfather
- casglu – (to) collect
- cyfrinach – secret

Mae Cari Davies yn athrawes yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, ym Mhatagonia. Mae hi isie dod â phlant o Ysgol Gymraeg y Gaiman i Gymru, i Eisteddfod yr Urdd 2020. Os bydd hi'n llwyddo, dyma'r tro cynta i hynny ddigwydd.

# Dros y Byd

## O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?

Dw i'n dod o Bontarddulais, rhwng Llanelli ac Abertawe, yn Ne Cymru.

## Ble dych chi'n byw nawr?

Dw i'n byw ym Mhatagonia.

## Ble dych chi'n gweithio?

Dw i'n gweithio yn Ysgol Gymraeg y Gaiman. Dw i'n athrawes yno.

## Beth dych chi'n hoffi am fyw ym Mhatagonia?

Llawer o bethau. Y pethau gorau ydy'r bobl – maen nhw'n werth y byd. Dw i'n cael y teimlad o fod yn agos iawn at gartref yma – ar ochr arall y byd! Hefyd, mae golygfeydd anhygoel yma ac mae llawer iawn iawn o gŵn yma!

## Beth dych chi'n hoffi bwyta yno?

Mae asados yn boblogaidd a blasus iawn yma. Oen wedi rhostio ar dân agored ydy asado. Hefyd mae stêc, pizza a phasta yn boblogaidd iawn, heb sôn am y cacennau, yr empanadas a'r trīts toes (mae'n amhosib colli pwysau!).

## Beth dych chi'n hoffi wneud ym Mhatagonia yn eich amser sbâr?

Dw i'n hoffi mynd i gael paned gyda Luned Gonzalez. [Mae Luned Gonzalez yn cyflwyno rhaglen radio ym Mhatagonia. Mae hi'n un o ddisgynyddion y bobl gynta o Gymru i ddod i Batagonia yn 1865.] Dw i'n hoffi teithio hefyd. Dw i wedi gweld y morfilod yn Puento Delgada a'r pengwinaid yn y Peninsula Valdes; dw i wedi hedfan am benwythnos i Buenos Aires a dw i wedi mynd draw i'r Andes.



## Ers faint dych chi'n byw ym Mhatagonia?

Symudais i i Batagonia ym mis Chwefror eleni.

## Ble roeddech chi'n byw cyn symud i Batagonia a beth oedd eich gwaith?

Ro'n i'n rhannu tŷ yng Nghaerdydd gyda dwy ferch. Ro'n i'n athrawes Blwyddyn Un yn Ysgol Gymraeg Bro Eirwg yn Llanrhymni, Caerdydd.

## Oedd gadael Cymru yn benderfyniad anodd?

Oedd. Roedd gadael fy nghariad, fy ffrindiau a fy nheulu'n anodd iawn a hefyd ro'n i'n dwlu ar fy swydd. Fe wnes i dreulio cwpl o wythnosau yn penderfynu beth i wneud. Ond dw i wedi breuddwydio am ddod i Batagonia ers

pan o'n i'n ferch ifanc. Ro'n i'n gwybod yn fy nghalon bod rhaid cymryd y cyfle arbennig yma.

## Beth dy'ch chi'n golli am Gymru?

Yn bendant, dw i'n colli siocled, coffi a the da, heb sôn am ginio dydd Sul a tecawê! Ac, a bod yn onest, dw i'n colli'r glaw (weithiau). Dw i'n colli mynd am dro ar y traeth neu i'r goedwig ble mae popeth yn wyrdd a dw i'n colli bod yn agos at fy nheulu, fy ffrindiau a fy nghariad.

## Geiriau

ro'n i'n dwlu ar = ro'n i wrth fy modd  
efo – I loved ...  
treulio – (to) spend (time)  
breuddwydio – (to) dream  
colli – methu = (to) miss

## Geiriau

dod â – (to) bring	ci, cŵn – dog-s
llwyddo – (to) succeed	heb sôn am – let alone, not
hynny – that	to mention
gorau – best	toes – pastry
gwerth y byd – precious (lit. worth the world)	disgynnydd, disgynyddion – descendant-s
teimlad – feeling	cymaint ... â phosib – as many ... as possible
agos – near	lle, -fydd – place-s
golygfeydd anhygoel – incredible scenery	morfil, -od – whale-s

Mae halen yn ddefnyddiol iawn, ond dych chi wedi gweld lamp wedi'i gwneud o halen? Mae Elgan Larsen o Fangor yn gwerthu lampau halen pinc o Fynyddoedd Himalaia ...

# Gweld y golau

## Halen defnyddiol

Dych chi'n hoffi halen? Dych chi'n rhoi halen ar eich bwyd? Mae'n bosib defnyddio halen mewn sawl ffordd, e.e. i goginio, i roi blas ar fwyd ac i gadw bwyd yn ffres.

Mae llawer o bobl yn defnyddio halen pinc o Fynyddoedd Himalaia erbyn hyn. Mae'n dod o ardal Punjab, ym Mhacistan, ger Mynyddoedd Himalaia. Mae llawer o bobl yn credu bod yr halen yn well i'ch iechyd chi na halen bwrdd arferol.

Weithiau, mae blociau o halen pinc yn cael eu troi yn ddsyglau i weini bwyd, neu'n fyrddau torri. Mae rhai pobl yn defnyddio halen pinc o Fynyddoedd Himalaia yn y bath hefyd.

Ond oeddech chi'n gwybod eich bod chi'n gallu cael lampau wedi'u gwneud o halen pinc o Fynyddoedd Himalaia? Mae pobl yn defnyddio'r lampau yma yn eu cartrefi.

Mae lampau pinc o Fynyddoedd Himalaia yn addurniadol ond mae rhai pobl yn credu eu bod nhw'n dda i'ch iechyd chi hefyd. Maen nhw'n gallu puro'r aer yn eich cartref, helpu i wella alergeddau ac maen nhw'n eich helpu chi i gysgu, medden nhw.



www.himalayan-salt-lamp-uk.co.uk

## Elgan a'r lampau halen pinc

Mae Elgan Larsen yn byw yn Nhregarth ym Mangor ac mae o'n gweithio fel cogydd rhan amser mewn canolfan ioga. Mae o'n teithio o gwmpas Ewrop gyda'r band Nightmare on Wax hefyd.

Mae o wastad wedi bod isio gweithio iddo'i hun. Mae o wedi dechrau gwerthu lampau wedi'u gwneud o halen pinc o

Fynyddoedd Himalaia.

Cafodd o'r syniad ar ôl cael gwyliau yng Ngwlad Pwyl.

"Roedd fy ngwraig i isio un o'r lampau a dyna pryd ces i'r syniad o'u gwerthu nhw. Mi wnes i ddod 'nôl adre ac edrych i mewn i'r peth. Does dim llawer o bobl yn gwerthu'r lampau yn y wlad yma."

Mae pob un o'r lampau'n cael ei

cherfio o halen pinc o Fynyddoedd Himalaia. "Mae pob un yn cael ei gwneud â llaw ac mae pob un yn unigryw. Maen nhw'n edrych yn hyfryd," meddai.

Mae'r lampau wedi cael eu defnyddio ers rhai blynyddoedd ond maen nhw wedi dod yn fwy poblogaidd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, meddai Elgan Larsen.

Beth arall sy'n arbennig am y lampau? "Maen nhw'n medru'ch helpu chi i gysgu ac maen nhw'n gwella ansawdd yr aer yn eich cartref. Maen nhw'n medru rhoi hwb i'ch system imiwnedd a lleihau stres. Maen nhw'n medru helpu efo pethau fel symptomau asthma ac alergeddau a blinder cronig hefyd."

"Mae'r lamp yn gweithio fel ìoneiddiwr a phan mae'n cynhesu, mae'n ìoneiddio'r aer sy'n helpu i wneud yr aer yn eich cartref yn fwy pur," meddai Elgan Larsen.

## Geiriau

unigryw – unique  
ìoneiddiwr – ioniser

medru = gallu – (to) be able to  
rhoi hwb i – (to) boost

## Lampau halen

Mae halen yn ddefnyddiol iawn.

Dan ni'n defnyddio halen i goginio ac i roi blas ar fwyd. Mae rhai pobl yn rhoi halen yn y bath.

Mae llawer o bobl yn defnyddio halen pinc o Fynyddoedd Himalaia.

Maen nhw'n meddwl, "Mae'r halen yn fwy iach."

Mae'n bosib prynu lampau wedi'u gwneud o halen pinc o Fynyddoedd yr Himalaia. Mae pobl yn rhoi'r lampau yn eu cartrefi.

Mae rhai pobl yn meddwl, "Maen nhw'n dda i'ch iechyd chi."

Maen nhw'n clirio'r aer yn eich cartref chi, maen nhw'n helpu i wella alergeddau ac maen nhw'n eich helpu chi i gysgu.

Mae Elgan Larsen yn byw ym Mangor. Mae o'n gweithio fel cogydd. Mae o'n gwerthu lampau halen pinc o Fynyddoedd Himalaia hefyd.



## Geiriau

defnyddiol – useful  
blas – flavour  
yn fwy iach – more healthy  
wedi'u gwneud o – made from  
aer – air  
gwella – (to) improve  
alergedd, -au – allergy, allergies



Mae drama newydd yn dechrau ar S4C ym mis Medi. Mae **Pili Pala** yn ddrama dywyll iawn. Mae **lingo newydd** yn siarad efo'r actores Catrin Mara am ei rhan hi yn y ddrama...

# Drama sy'n codi cwestiynau

Dyma'r stori ...

Mae **Pili Pala** yn dilyn stori Elin Roberts sy'n disgwyl ei babi cyntaf. Mae hi wedi cael triniaeth IVF. Mae hi'n hapus iawn pan mae hi'n deall ei bod hi'n disgwyl babi.

Ei ffrind hi ydy Sara Morris. Mae Sara yn ddoctor. Mae hi'n ymgynghorydd yn Ysbyty Glyn Conwy.

Sara ydy'r doctor sy'n helpu Elin.

Ond mae Sara yn rhoi newyddion drwg i Elin. Mae rhywbeth yn bod efo'r babi ac mae Elin yn gorfod cael erthyliad.

Mae Sara yn drist iawn ac mae hi'n troi at ei ffrind Avril Myles. Bydwraig ydy Avril. Mae Avril yn helpu efo'r

erthyliad – a dyna pryd mae dilema'n codi. Mae Avril yn gweld y babi'n anadlu. Ydy hi'n dweud wrth Elin a Sara?

Mae ei phenderfyniad hi'n effeithio ar eu bywydau nhw i gyd ...

## Geiriau

rhan – part  
triniaeth – treatment  
ymgynghorydd – consultant  
mae rhywbeth yn bod – there's something wrong  
gorfod – (to) have to  
erthyliad – abortion  
bydwraig – midwife  
anadlu – (to) breathe



## Dyma'r actores

Catrin Mara sy'n actio rhan Avril. Mae hi'n dod o Lanuwchllyn. Mae hi'n actio rhannau doniol weithiau ond mae Avril yn wahanol.

### Catrin, beth ydy rôl Avril yn y ddrama?

Mae'n rôl ddwys iawn achos mae'n delio efo rhywbeth anodd – does neb isio meddwl amdano fo.

Mae Avril yn berson rhydd iawn, yn dipyn o *free spirit*. Mae hi'n dod ag elfen ysgafnach i'r dŵch. Ond mae hi'n cael ei thynnu i lygad y storm. Bydd pobl yn cydymdeimlo'n fawr efo hi, dw i'n meddwl.

Mae hi'n dweud y gwir. Mae hi'n dweud, "Rhaid i fi wneud y peth iawn."

Yn yr un sefyllfa, dyna fy newis i hefyd. Dw i'n dod o deulu o blismyn a chyfreithwyr – dw i ddim yn gallu dweud celwydd!

### Ydy Pili Pala yn wahanol i'ch gwaith chi cyn hyn?

Ydy, yn hollol wahanol. Dw i heb weld unrhyw beth fel hyn yn Gymraeg o'r blaen. Roedd y ffordd o ffilmio yn wahanol hefyd. Roedd y dyn camera yn gwisgo harnais er mwyn gallu cario'r camera i bob man. Dyma'r math o steil sy mewn rhaglenni dogfen. Mae steil y ffilmio a'r cyfarwyddo'n fwy Ewropeaidd. Mae'n ddiddorol iawn ac yn wahanol.

### Ar ôl gweld Pili Pala, ydy pobl yn mynd i feddwl a gofyn cwestiynau?

Ydyn, dw i'n credu. Bydd pobl yn trafod beth sy wedi digwydd a gofyn, "Beth faswn

i'n wneud?" Mae'n rhoi pobl mewn cyfyng-gyngor. Mae llawer o gwestiynau'n codi o'r sgript. Mae'n eitha dadleuol – bydd o'n rhwygo'r gynulleidfa dw i'n credu achos mae'r pwnc mor heriol.

### Sut roeddech chi'n teimlo wrth ffilmio Pili Pala?

Ro'n i yn ypsetio wrth ffilmio'r ddrama. Roedd hi'n reit anodd ar ôl mynd adre. Ond dyna beth sy'n gwneud y ddrama mor arbennig. Roedd yna ambell olygfa lle roedden ni'n trio achub bywyd babi newydd. Roedden ni'n ffilmio'r olygfa am oriau. Roedd bydwraig go iawn yn helpu achos mae cymaint o gwestiynau'n codi wrth ffilmio. Ar ôl i ni ffilmio'r olygfa o achub y babi roedden ni'n teimlo fel ein bod wedi achub babi go iawn.

### Lle cafodd Pili Pala ei ffilmio?

Mae'r ddrama wedi'i gosod yng Ngogledd Cymru.

Wnaethon ni ffilmio yn Llandudno ond roedd y rhan fwya o'r ffilmio yng Nghaerleon [ger Casnewydd yn y de-ddwyrain]. Roedden ni mewn hen adeilad. Coleg oedd yr adeilad ers talwm. Roedd yr adran gelf wedi gwneud yr ystafelloedd mor gredadwy ro'n i'n teimlo fy mod i mewn ysbyty go iawn!

## Geiriau

dwys – serious, profound, intense  
elfen – element  
dŵch – darkness  
cydymdeimlo – (to) sympathize  
cyfarwyddo – directing  
mewn cyfyng-gyngor – in a quandary  
dadleuol – controversial  
rhwygo – (to) split  
golygfa – scene  
achub – (to) save  
credadwy – credible

## Holi Catrin Mara

### O le dach chi'n dŵad?

Dw i'n dŵad o Lanuwchllyn yn wreiddiol. Mae Lanuwchllyn ger y Bala. Dw i'n byw yng Nghaerlarnfon rŵan.

### Oes gynnwch chi blant?

Oes, mae gen i ddau o blant. Mae Anni yn 10 oed ac mae Beca yn 6 oed.

### Pwy ydy'ch teulu chi?

Mae llawer o fy nheulu i'n blismyn a chyfreithwyr.

### Dach chi'n actio llawer?

Dw i'n actio mewn cyfresi fel **Parch, Y Gwyll** a **Cari**.

### Ydy Pili Pala yn wahanol?

Ydy, mae'n wahanol iawn. Mae'n codi cwestiynau anodd – ac mae'r ffordd o ffilmio'n wahanol hefyd.

## Geiriau

plismyn, plismyn – policeman, policemen  
cyfreithiwr, cyfreithwyr – solicitor, -s  
cyfres, -i – series



## Mwy am Pili Pala

Phil Rowlands ydy awdur y sgript.

Mae o'n ysgrifennu llawer o sgriptiau ar gyfer ffilmiau, teledu a radio.

Y cynhyrwydd ydy Nora Ostler.

Mae Cwmni Triongl yn gwneud y rhaglen.

Pili Pala

Nos Sul, 8 Medi, 9.00, S4C

## Geiriau

awdur – writer, author  
cynhyrwydd – producer

Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Y tro yma, mae hi'n dweud beth mae hi'n hoffi wneud yn ystod yr haf...

Dewis Debora

# Yr haf yn Rhufain

Dw i'n byw yn agos iawn at y môr, mewn ardal o'r enw Ostia Lido. Mae'n rhan o Rufain. Bob blwyddyn, wrth i'r haf nesáu, mae llawer mwy o bobl yn dechrau dod i'r ardal.

Does dim lle gwell i bobl o Rufain ddianc rhag gwres ofnadwy ac annioddefol y ddinas. Mae'r traeth mor llawn dros y penwythnos, dydy hi ddim yn bosibl gweld y tywod!

Dw i'n cofio, pan o'n i'n blentyn, bod teuluoedd cyfan yn llwytho'u ceir gyda phob math o bethau cyn treulio diwrnod ar y traeth. Roedden nhw'n edrych fel pobl oedd yn symud tŷ!

Wrth gwrs, gan eu bod nhw'n deuluoedd Eidalaid, roedd y mamau'n paratoi digon o fwyd i lenwi boliau'r dref gyfan!

Mae'r teuluoedd yn llai nawr a does dim angen i'r mamau godi'n gynnar iawn i baratoi bwyd. Weithiau, maen nhw'n mynd i'r tai bwyta ar lan y môr neu maen nhw'n cael pryd o fwyd ysgafn.

Mae mwy o sylw ar gadw'n heini erbyn heddiw. Nawr, mae'n bosibl mynd i'r traeth a chael gwersi cadw'n heini neu godi pwysau. I bobl sy'n gweithio'n galed drwy'r wythnos mae cyfle i ymlacio o dan yr ymbarél, cysgu, darllen nofel neu bapur newydd a nofio yn y môr a mwynhau'r dŵr ffres.

## Fyhafi

Dw i ddim yn mynd i'r traeth yn aml iawn achos dw i ddim yn hoffi'r haul cryf ond dw i'n hoffi nofio a chwarae yn y môr. Mae'n well 'da fi gerdded ar y traeth pan mae'r haul yn machlud. Yr adeg yna, does dim llawer o bobl o gwmpas a dydy hi ddim yn rhy boeth.



Dros yr haf, mae nifer fawr o ddiwyddiadau gyda'r nos ar lan y môr. Mae llawer o fandiau roc yn perfformio ac mae'n bosibl dawnsio o dan y sêr tan yn hwyr. Dw i'n

chwarae gyda fy mand i - y Debby Moore Band - ar y traeth dros yr haf, dw i'n edrych ymlaen!

Dw i'n perfformio caneuon o'r pum degau a'r chwe degau fel caneuon Elvis, Jimmy Hendrix, Chuck Berry a'r Beatles. Mae pawb yn cael amser da am gwpl o oriau o leia.

Dw i'n hapus yn byw wrth y môr. Os dw i ddim yn gallu mynd ar wyliau, dw i'n gallu mynd i lan y môr ar ôl gorffen yn y gwaith. Mae'n wych!

## Geiriau

- |  |                             |
|--|-----------------------------|
| wrth i'r haf agosáu - as the summer approaches | codi pwysau - weightlifting |
| dianc - (to) escape                            | mae'n well 'da fi =         |
| annioddefol - unbearable                       | mae'n well gen i            |
| cyfan - whole                                  | - I prefer                  |
| llwytho - (to) load                            | machlud - (to) set          |
| gan eu bod ... - as                            | yr adeg yna - (at)          |
| (because) they were ...                        | that time                   |
| sylw - attention                               | digwyddiad, -au - event, -s |
|  | o leia - at least           |



## Debora ar y traeth

- Mae Debora yn byw wrth y môr.
- Enw'r ardal ydy Ostia Lido. Mae'n rhan o Rufain.
- Mae'n brysur iawn yno yn yr haf.
- Mae pobl o Rufain yn hoffi dod i'r traeth.
- Mae Debora yn hoffi nofio a chwarae yn y môr.
- Mae llawer o fandiau yn perfformio yno dros yr haf.
- Mae band 'da Debora ac mae hi'n perfformio yno!


## Geiriau

- |   |
|---|
| ardal - area  |
| rhan - part   |
| Rhufain - Rome  |
| Mae band 'da Debora = Mae gan Debora fand - Debora has a band |



# Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o lingo newydd.



Mae'r atebion ar y gwaelod.

Cofiwch - un llythyren ydy ff a ll.

## Ar draws

- Gweld rhywbeth yn sydyn - cael \_\_\_ ar rywbeth. (3)
- Bydd rhai pobl yn gwneud hyn wrth wrando ar fand Debora, mae'n siŵr. (7)
- "Allan" yn y Gogledd \_\_\_ yn y De. (3)
- Ystafell fawr o dan y to. (4)
- Y cyfarwyddiadau mewn rysâit. (3)
- Mae un o'r rhain o dan droed ceffyl. (5)
- Bwyd poblogaidd ym Mhatagonia. (5)
- Oergell, rhewgell, popty, tostiwr - rhai o \_\_\_ y gegin. (4)
- Edrych \_\_, gwrando \_\_, sylwi \_\_. (2)
- Darn o dir gyda dŵr o'i gwmpas. (4)

## I lawr

- Afon fach. (4)
- Plentyn heb frawd na chwaer. (4)
- Mae Cardiff Confectionery yn defnyddio hwn. (7)
- Hoff fwyd Francesca Elena Sciarrillo. (5)
- Geiriau croes - dechrau a \_\_\_ (6)
- Perfformiad mewn theatr. (5)
- Hir pob \_\_\_ (4)
- Dych chi wedi meddwl \_\_\_ wyliau eleni? (2)
- Cig sy'n cael ei rostio yn 13. ar draws. (3)

## Geiriau

cyfarwyddiadau - instructions  
geiriau croes - opposites

## Idiom lingo newydd


efo Mumph

Pan mae ci'n hapus, mae'n siglo'i gynffon.

Felly, os dych chi'n hapus iawn, dych chi fel ci gyda dwy gynffon - ac mae Mumph yn hapus iawn pan mae Cymru'n ennill y rygbi!

## Geiriau

- |                        |
|------------------------|
| siglo - (to) wag       |
| cynffon - tail         |
| Camp Lawn - Grand Slam |



Ar draws: 4. Cip; 6. Dawnsio; 7. Mas; 8. Astig; 10. Dull; 11. Pedol; 13. Asado; 16. Offer; 17. Ar; 18. Ynys. I lawr: 1. Nant; 2. Unig; 3. Stocled; 5. Pasta; 9. Gorffen; 10. Drama; 12. Aros; 14. Am; 15. Oen.

Atebion



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru

# Y CYLCH SIALC

Der kaukasische Kreidekreis  
The Caucasian Chalk Circle

gan / by

**BERTOLT BRECHT**

Trosiad gan / Translated by

**MERERID HOPWOOD**

Gyda cherddoriaeth wreiddiol fyw gan  
With original live music by

**GWENNO**

#YCylchSialc @TheatrGenCymru theatr.cymru

## Y DAITH / THE TOUR

FFWRNES, LLANELLI  
2–4.10.19  
theatrusirgar.co.uk | 0345 2263510

PORTLAND HOUSE,  
CAERDYDD / CARDIFF  
8–10.10.19  
wmc.org.uk | 029 2063 6464

PONTIO, BANGOR  
15–18.10.19  
pontio.co.uk | 01248 38 28 28

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE  
21 + 22.10.19  
aberystwythartscentre.co.uk  
01970 62 32 32



Mae Sibrwd, yr ap mynediad iaith, yn ehangu mynediad i bawb i theatr yn y Gymraeg. Ar gael ym mhob perfformiad.

Sibrwd, the language access app, makes Welsh-language theatre accessible to all. Available at each performance.

Mewn cydweithrediad â Theatrau Sir Gâr  
In association with Carmarthenshire Theatres